**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (PONTERWYD, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, ym Mhonterwyd, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya i'r gorllewin o Westy George Borrow hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 30 mya ym mhen dwyreiniol Ponterwyd, sef pellter o tua 1.35 cilometr.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar y B4343 tua'r de yn Nyffryn Castell, yr A4120 tua'r gorllewin drwy Bontarfynach i Gylchfan Southgate, Aberystwyth yna tua'r gogledd ar hyd Heol y Bont i ailymuno â'r A44 yn Llanbadarn Fawr: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Medi 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 9 Medi a 5 Hydref 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A44 TRUNK ROAD (PONTERWYD, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A44 trunk road at Ponterwyd, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A44 trunk road that extends from the 40 mph speed limit sign west of the George Borrow Hotel to the 30 mph speed limit sign at the eastern end of Ponterwyd, a distance of approximately 1.35 kilometres.

The alternative route for westbound vehicles is via the southbound B4343 at Dyffryn Castle, westbound A4120 through Devil's Bridge to Southgate Roundabout, Aberystwyth then northbound via Heol y Bont to rejoin the A44 at Llanbadarn Fawr: vice versa for eastbound vehicles.

The Order comes into force on 9 September 2024. The temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 9 September to 5 October 2024, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government